# Cytundeb

# rhwng

# Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

# a

# Heddlu Dyfed Powys

Statws: Fersiwn 2
Dyddiad Cyhoeddi: 23/08/19 Dyddiad Adolygu: Awst 2022

# Cytundeb rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Heddlu Dyfed Powys

## 1. RHAGARWEINIAD

O dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd eu bod wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Gall y OGCC hefyd ymchwilio i gwynion fod aelodau etholedig awdurdod lleol wedi, neu y gallent fod wedi, methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod hwnnw. O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i bob Cyngor Sir, Bwrdeistref Sirol a Chymuned a phob Awdurdod Parc Cenedlaethol ac Awdurdod Tân yng Nghymru fod â chod ymddygiad yn nodi sut y dylai eu haelodau etholedig ymddwyn. Rhaid i'r holl aelodau gytuno i lynu wrth y cod hwn.

## 2. PWRPAS

Mae'r Ombwdsmon a Heddlu Dyfed Powys (HDP) yn cydnabod bod angen cynorthwyo'r broses ymchwilio a sicrhau bod y ddau gorff yn deall ei gilydd. Mae hyn yn hwyluso'r canlynol:

- Bod modd rhannu gwybodaeth yn gyfrinachol cyn ymchwilio'n ffurfiol er mwyn adnabod unrhyw faterion perthynol i'r heddlu perthnasol, a materion perthynol i'r OGCC;
- Bod modd i'r OGCC atgyfeirio at yr heddlu unrhyw honiadau o droseddu ynghyd â thystiolaeth ategol gan y cwynwr;
- Bod modd rhannu gwybodaeth gyda'r OGCC lle mae cwyn am gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n ymwneud â throseddu honedig neu dybiedig ar ran y darparwr gwasanaeth neu ei staff;
- Bod modd i'r heddlu roi i'r OGCC unrhyw ddatganiadau copi a thystiolaeth arall ganddynt, **lle bo hynny'n briodol,** pan fydd aelod wedi'i gael yn euog o drosedd, lle mae'r euogfarn honno'n ymwneud â honiad o gamymddwyn neu pan wneir penderfyniad i beidio ag erlyn ond lle mae'r Ombwdsmon wedi derbyn honiad bod y cod ymddygiad wedi'i dorri yng nghyswllt yr un ffaith;
- Bod modd rhoi unrhyw wybodaeth arall sydd efallai gan yr heddlu yng nghyswllt ymchwiliad gan y OGCC, **lle bo hynny'n briodol.**

Pwrpas y ddogfen hon yw:

- Darparu dull a phroses y gall yr Ombwdsmon eu defnyddio i ofyn am wybodaeth ym meddiant Heddlu Dyfed Powys, a gwybodaeth gan blismyn a allai fod yn dystion, yng nghyswllt mater sy'n berthnasol i ymchwiliad gan ombwdsmon;

- Darparu dull a phroses, a nodi unrhyw gyfyngiadau, i'w defnyddio gan y naill barti i ddiweddaru'r llall.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r egwyddorion cydweithredu ynghyd â'r broses sydd i'w dilyn.

## 3. MANTEISION RHANNU

Drwy rannu gwybodaeth bersonol o dan y Cytundeb hwn, rhagwelir y cyflawnir y manteision canlynol:

- Bod modd i'r OGCC gael gafael ar yr holl dystiolaeth berthnasol am honiad o gamymddwyn (bydd gwybodaeth yn cael ei hystyried ar sail pob achos yn unigol fel y nodir yn Adran 11);
- Bod modd atgyfeirio at yr heddlu neu asiantaeth briodol arall unrhyw honiad o ymddygiad troseddol neu dystiolaeth yn awgrymu ymddygiad troseddol mewn cwyn o dan y cod ymddygiad.

Bydd cydweithredu'n fanteisiol yn yr amgylchiadau canlynol:

- Yn achos cwynion a dderbyniodd y POSW am gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru lle honnwyd neu lle mae'n ymddangos bod trosedd honedig neu dybiedig ar ran y darparwr gwasanaeth neu ei staff wedi digwydd;
- Yn achos cwynion a dderbyniodd y OGCC fod aelod o awdurdod lleol wedi torri'r Cod Ymddygiad yn ymwneud ag ymddygiad y mae'r heddlu eisoes wedi efallai, neu y dylai, ymchwilio iddo oherwydd y gallai'r ymddygiad y cwynwyd yn ei gylch fod yn drosedd;
- Yn achos cwynion a dderbyniodd heddluoedd ynghylch ymddygiad aelodau nad yw'n droseddol ei natur ond sydd efallai'n torri'r cod ymddygiad ar gyfer aelodau;
- Yn achos ymchwiliadau gan yr heddlu i fusnes aelod, lle credir bod trosedd wedi'i gyflawni ond lle na chafodd trosedd ei ganfod, ond lle mae'r aelod wedi ymddwyn yn anfoesegol;
- Yn achos ymchwiliadau gan yr heddlu i fusnes aelod, lle mae trosedd wedi'i ganfod ond lle penderfynir na fyddai erlyn o fudd i'r cyhoedd; ac
- Yn achos cwynion / gwybodaeth a gyfeiriwyd at y OGCC ac at yr heddlu ar yr un pryd, yng nghyswllt gweithgareddau aelod mewn awdurdod perthnasol.

## 4. <u>PWERAU DEDDFWRIAETHOL / STATUDOL</u>

Bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu o fewn fframwaith cyfreithiol y ddeddfwriaeth Diogelu data (gan gynnwys y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RDDC) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DDD)), Deddf Hawliau Dynol 1998 a thrwy gydymffurfio â'r ddyletswydd gyfrinachedd o dan y gyfraith gyffredin.

Dim ond un o'r seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu yn y RDDC, a dim ond un o'r amodau ar gyfer prosesu Categorïau Arbennig o ddata personol neu ddata Euogfarn Droseddol o dan RDDC a DDD yw caniatâd. Oherwydd nad yw'r rhannu o dan y Cytundeb hwn yn dibynnu ar ganiatâd, bydd angen i gyrff partner fodloni un o'r seiliau cyfreithlon eraill ar gyfer prosesu data personol o dan y RDDC, ac un o'r amodau o dan RDDC a DDD ar gyfer prosesu categori arbennig neu ddata euogfarn droseddol.

I bwrpas y Cytundeb hwn, bydd y seiliau cyfreithlon canlynol sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 6 o'r RDDC yn briodol ar gyfer prosesu data:

6(1)(c). Mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y dylai rheolydd y data lynu wrthi;

6(1)(e). Mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn perfformio tasg sy'n cael ei gyflawni er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol a freiniwyd i'r rheolydd.

I bwrpas y Cytundeb hwn, bydd yr amodau canlynol, sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 9 o'r RDDC ac Atodlen 1 o'r DDD yn briodol er mwyn prosesu categori arbennig a/neu ddata euogfarn droseddol:

6 (1) Bodlonir yr amod hwn os yw'r prosesu –

a) yn angenrheidiol ar gyfer pwrpas sydd wedi'i restru yn is-baragraff (2), a
b) yn angenrheidiol ar gyfer resymau sydd o fudd cyhoeddus sylweddol.

6 (2) Y pwrpasau hynny yw –

a) ymarfer un o swyddogaethau y disgwylir i berson ei gyflawni o ganlyniad i ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith
b) ymarfer un o swyddogaethau y Goron, un o Weinidogion y Goron neu un o adrannau'r llywodraeth.

7 Bodlonir yr amod hwn os yw'r prosesu yn anghenrheidiol –

a) i weinyddu cyfiawnder, neu
b) i ymarfer un o swyddogaethau'r naill Dŷ na'r llall yn senedd y DU

Yn unol â gofynion Atodlen 1, Rhan 2, Paragraff 5 y DDD, bodlonir yr amodau uchod dim ond os oes gan y weithdrefn ddogfen bolisi priodol ar waith pan gynhalir y prosesu.

Pwerau deddfwriaethol ychwanegol (gweler Atodiad A):

- Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019
- Deddf Llywodraeth Leol 2000

## 5. MANYLION AM Y WYBODAETH BERSONOL SY'N CAEL EI RHANNU

Mae gwybodaeth bersonol a rennir i bwrpas y Cytundeb hwn yn cynnwys ystod o wybodaeth a gallai felly gynnwys:

- Enwau llawn;
- Cyfeiriad a manylion cyswllt eraill;
- Lle bo hynny'n berthnasol, gwybodaeth am ymddygiad unigolion gan gynnwys datganiadau, cofnodion ysgrifenedig neu recordiadau sain, delweddau CCTV a delweddau eraill;

- Lle bo hynny'n berthnasol, unrhyw wybodaeth bersonol arall yn y deunydd y cyfeirir ato yn Adran 2 y Cytundeb hwn sydd angen ei rhannu ym marn y naill barti neu'r llall fel bo'r OGCC yn gallu cyflawni'r swyddogaethau statudol yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Ddeddf Llywodraeth Leol.

## 6. NOD Y TREFNIADAU HYN

Sicrhau cyd-gyswllt effeithiol ar gyfer y canlynol:

a) Fel bo'r OGCC yn gallu cael gafael ar yr holl dystiolaeth berthnasol sydd ar gael am honiad o gamymddwyn;
b) Fel bod unrhyw honiad o ymddygiad troseddol neu dystiolaeth yn awgrymu ymddygiad troseddol yn cael ei gyfeirio at yr heddlu neu asiantaeth briodol arall lle caniateir hynny o dan y ddeddfwriaeth berthnasol yng nghyswllt ymchwiliadau'r OGCC;
c) Fel nad yw ymchwiliadau'r OGCC yn gwrthdaro'n anfwriadol ag ymchwiliadau'r heddlu; a
d) Fel bod cyfathrebu amserol rhwng Heddlu Dyfed Powys a'r OGCC.

Wele Adran 11 am amlinelliad manwl o'r broses i'w dilyn er mwyn darparu gwybodaeth i'r OGCC.

## 7. CYTUNDEB

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio cytundeb:

a) I rannu gwybodaeth yn gyfrinachol cyn ymchwilio'n ffurfiol er mwyn adnabod unrhyw faterion perthynol i'r heddlu perthnasol, a materion perthynol i'r OGCC;
b) Lle bo hynny'n briodol, i roi unrhyw ddatganiadau copi a thystiolaeth arall sydd ym meddiant yr heddlu i'r OGCC pan fydd aelod wedi'i gael yn euog o drosedd, lle mae'r euogfarn honno'n ymwneud â honiad o gamymddwyn neu pan wneir penderfyniad i beidio ag erlyn ond lle mae'r Ombwdsmon wedi derbyn honiad bod y cod ymddygiad wedi'i dorri yng nghyswllt yr un ffeithiau;
c) I roi unrhyw wybodaeth arall sydd efallai ym meddiant yr heddlu yng nghyswllt ymchwiliad gan y OGCC.

## 8. TELERAU'R CYTUNDEB

a) Rhaid i bob cais ffurfiol fod yn ysgrifenedig er y gallai'r cais rhagarweiniol fod yn llafar ac anffurfiol;
b) Rhaid i bob cyfathrebu ddigwydd drwy'r pwynt cyswllt enwebedig ar gyfer Heddlu Dyfed Powys a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau neu Gyfarwyddwr Gwella OGCC
c) Rhaid i unrhyw ymchwiliad troseddol gael blaenoriaeth;
d) Nid yw bodolaeth y ddogfen hon yn golygu na ellir cytuno ar wahanol drefniadau mewn achos neilltuol.

## 9. DIOGELU GWYBODAETH

Bydd pob corff yn gyfrifol am y wybodaeth sydd yn ei feddiant neu a brosesir ganddo o dan y cytundeb hwn, a bydd yn gwneud hynny'n unol â'i rwymedigaethau fel rheolydd data o dan RDDC a DDD.

Bydd y corff sy'n anfon gwybodaeth o dan y cytundeb hwn yn gyfrifol am sicrhau yr anfonir y wybodaeth mewn ffordd briodol, a lle bo angen, mewn ffordd ddiogel. Bydd y corff sy'n derbyn gwybodaeth o dan y cytundeb hwn yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw wybodaeth a dderbynnir yn cael ei storio a'i phrosesu mewn ffordd briodol, unwaith y bydd wedi'i derbyn.

Os yw'r corff sy'n derbyn y wybodaeth yn amau bod deunydd ganddo a dderbyniodd gan y corff a anfonodd y wybodaeth o dan y cytundeb hwn wedi cael ei golli, neu wedi'i ddatgelu'n anfwriadol i drydydd parti, dylai'r corff derbyn roi gwybod i'r corff anfon cyn gynted â phosib ac yn unol ag unrhyw amserlen a nodir o dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Mae'r partïon yn ymrwymo i ddefnyddio unrhyw wybodaeth sy'n cael ei rhannu o dan y cytundeb dim ond i'r pwrpas penodol y cafodd y wybodaeth ei datgelu ar ei gyfer yn unol â'r cytundeb hwn. Ni ddylid ei rhannu ar gyfer unrhyw bwrpas arall y tu allan i'r cytundeb hwn. Gellir rhyddhau gwybodaeth i drydydd parti heb dderbyn awdurdod ysgrifenedig penodol y parti a roddodd y wybodaeth ar yr amod y cafodd ei datgelu'n gyfreithlon yn unol â darpariaethau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 neu'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (gweler Atodiad A). Mewn unrhyw achos arall ni chaiff y derbynnydd ryddhau'r wybodaeth i unrhyw drydydd parti heb fod wedi derbyn awdurdod ysgrifenedig penodol gan y parti a roddodd y wybodaeth. Rhaid dinistrio'r wybodaeth unwaith na fydd angen y wybodaeth mwyach.

## 10. CYFRINACHEDD

Rhaid i bob parti (OGCC a Heddlu DP) gadw'r holl ddata personol sy'n cael ei ddatgelu o dan y cytundeb hwn yn gyfrinachol bob amser. Bydd y cymal hwn yn goroesi terfynu'r cytundeb neu dynnu'n ôl ohono. Mae hyn yn golygu na chaiff unrhyw gyhoeddiad data a gyflenwir o dan y cytundeb hwn adnabod unrhyw unigolyn, ac eithrio fel y nodir yn y cytundeb hwn.

## 11. Y BROSES GYDA GWYBODAETH I'W DARPARU GAN HEDDLU DP

Rhaid anfon pob cais am wybodaeth a wneir gan y OGCC i Adran Diogelu Data Heddlu Dyfed Powys: dataprotection@dyfed-powys.pnn.police.uk

Ar ôl derbyn y cais am wybodaeth gan y OGCC, bydd y broses ganlynol yn cael ei dilyn:

- Bydd staff yn yr Adran Diogelu Data'n adolygu pob cais fesul achos ac yn ystyried yr holl ddeddfwriaeth berthnasol (fel y'i nodir yn Adran 4 ac Atodiad A);
- Bydd y staff Diogelu Data'n ystyried datgelu gwybodaeth ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau yn y mater;

- Bydd unrhyw gais pellach am y wybodaeth yn cael ei ystyried gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) cyn datgelu ymhellach;
- Rhaid trosglwyddo pob gwybodaeth yn gwbl ddiogel, h.y. e-bost diogel, Varonis etc.

## 12. ADOLYGU

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu gan Heddlu Dyfed Powys ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bob tair blynedd neu’n gynt os oes amgylchiadau lle byddai gwneud hynny’n briodol.

# Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 (“Deddf OGCC 2019”)

### Cwynion o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth yn erbyn cyrff cyhoeddus

O dan Ddeddf OGCC 2005, gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i gwynion gan aelodau’r cyhoedd eu bod wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae gan yr Ombwdsmon bwerau eang i fynnu bod unrhyw berson, a allai wneud yn ei farn ef, yn cyflenwi gwybodaeth neu’n dangos dogfennau neu dystiolaeth arall i bwrpas ei ymchwiliadau o dan adran 19 y Ddeddf OGCC. Mae hyn yn golygu nad yw gwybodaeth a roddir i’r Ombwdsmon mewn ymateb i gais am dystiolaeth o’r fath yn destun protocol rhannu gwybodaeth. Dylid darparu’r wybodaeth yn llawn heb ei golygu (bydd gwybodaeth yn cael ei hystyried fesul achos fel y nodir hynny yn adran 11) a heb fod angen i’r heddlu perthnasol dderbyn caniatâd gan unrhyw un o’r partïon a allai fod yn ymwneud ag unrhyw fater neu fod wedi cael eu henwi mewn unrhyw ddogfen.

Cyflawnir pob ymchwiliad o’r fath yn breifat gan y OGCC ac efallai na fydd yr Ombwdsmon yn datgelu’r wybodaeth a dderbyniodd fel rhan o ymchwiliad ac eithrio ar gyfer un o’r pwrpasau penodol a nodir yn adran 69 y Ddeddf sef:

a) i bwrpas penderfynu a ddylid dechrau ymchwiliad neu beidio;
b) i bwrpas ymchwiliad;
c) i bwrpas unrhyw un o swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol Cymru
d) i bwrpas datrys cwyn o dan 6 neu 46 o’r Ddeddf OGCC;
e) i bwrpas datganiad neu adroddiad a wnaed yng nghyswllt cwyn neu ymchwiliad;
f) i bwrpas unrhyw ddarpariaeth yn adrannau 65, 66, 67neu 68 o'r Ddeddf OGCC;
g) i bwrpas achos llys yng nghyswllt-
    (i) trosedd o dan Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 tan 1989 yr honnir iddo fod wedi cael ei gyflawni gan yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu gan berson arall sy’n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu sy’n cynorthwyo’r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un o’i swyddogaethau;

(ii) trosedd o roi tystiolaeth gelwyddog ar lw yr honnir iddo fod wedi digwydd yn ystod ymchwiliad;

h) i bwrpas ymchwiliad gyda golwg ar ddwyn achos yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (g);
i) i bwrpas achos llys o dan adran 20 neu 54 o'r Ddeddf OGCC;
j) yn achos gwybodaeth i'r perwyl fod person yn debygol o fod yn fygythiad i iechyd neu ddiogelwch un neu fwy o bobl, i unrhyw berson y dylid ei datgelu iddynt er budd y cyhoedd ym marn yr Ombwdsmon;
k) yn achos gwybodaeth y mae isadran (3) yn berthnasol iddi, i'r Comisiynydd Gwybodaeth.
l) i bwrpas un o swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Benodau 3 a 4 o Ran 3 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (c.22)

## Deddf Llywodraeth Leol 2000

### Cwynion fod aelodau awdurdod lleol wedi, neu y gallent fod wedi, torri eu Cod Ymddygiad

Gall y OGCC hefyd ymchwilio i gwynion fod aelodau etholedig awdurdod lleol wedi, neu y gallent fod wedi, methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod hwnnw. O dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, rhaid i bob Cyngor Sir, Bwrdeistref Sirol a Chymuned a phob Awdurdod Parc Cenedlaethol ac Awdurdod Tân yng Nghymru fod â chod ymddygiad yn nodi sut y dylai eu haelodau etholedig ymddwyn. Rhaid i'r holl aelodau gytuno i lynu wrth y cod hwn.

Mae gan yr Ombwdsmon bŵer i fynnu bod unrhyw berson sydd yn ei farn ef yn gallu cyflenwi gwybodaeth neu ddangos dogfennau neu dystiolaeth arall i bwrpas ei ymchwiliadau o dan adrannau 61 a 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel sy'n berthnasol i Gymru o dan adran 70 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn OGCC (Ymchwiliadau Safonau) 2006 (SI2006/949).

O dan adran 63(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ni chaniateir datgelu gwybodaeth a dderbyniwyd gan y OGCC o dan adran 61 neu 62 oni bai y bodlonir un neu fwy o'r amodau canlynol:

(a) mae'r wybodaeth yn cael ei datgelu i'r pwrpas o alluogi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu lywydd, dirprwy lywydd neu unrhyw dribiwnlys o Banel Dyfarnu Cymru i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Rhan yma;
(b) mae'r person y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddynt wedi rhoi caniatâd i'w datgelu;
(c) mae'r wybodaeth wedi cael ei datgelu'n flaenorol i'r cyhoedd gydag awdurdod cyfreithlon;
(d) mae'r wybodaeth yn cael ei datgelu i bwrpas achos troseddol mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig ac ni dderbyniwyd y wybodaeth dan sylw o dan adran 62(2);
(e) mae'r wybodaeth yn cael ei datgelu i'r Comisiwn Archwilio i bwrpas cyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn Archwilio neu archwilydd o dan Ddeddf Comisiwn Archwilio 1998;

(f) mae’r wybodaeth yn cael ei datgelu i Archwilydd Cyffredinol Cymru i bwrpas cyflawni unrhyw un o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru neu archwilydd o dan Ran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004;

(g(i)) mae’r wybodaeth yn cael ei datgelu i bwrpas ymchwiliad neu adroddiad ar gyfer ymchwiliad o dan Ran 3 neu Ran 5 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019;

(g(ii)) mae’r wybodaeth yn cael ei datgelu i’r pwrpas o alluogi swyddog monitro mewn awdurdod perthnasol i gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rhan yma;

(h) mae’r wybodaeth yn cael ei datgelu i’r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yn Lloegr i'r pwrpas o gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau;

(i) mae’r wybodaeth yn cael ei datgelu i’r Comisiwn Etholiadol i'r pwrpas o gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau;

(j) mae’r wybodaeth yn cael ei datgelu i unrhyw berson a enwir mewn gorchymyn a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol i bwrpasau’r paragraff hwn, i’r pwrpasau a ddisgrifir ynddo.

Os yw’r Ombwdsmon yn ystyried bod achos i’w ateb gan yr aelod y mae’n ymchwilio iddo neu iddi neu, ar ôl dod â’r ymchwiliad i ben, os yw’n ystyried bod sail dros gyfeirio’r aelod at Banel Dyfarnu Cymru neu bwyllgor safonau, gellir cynnwys unrhyw dystiolaeth a dderbyniwyd yn adroddiad yr Ombwdsmon a’i datgelu i’r aelod a’r corff perthnasol.

Gall Panel Dyfarnu Cymru a’r pwyllgorau safonau hefyd fynnu bod personau’n rhoi tystiolaeth neu wybodaeth iddynt yn unol â Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 a Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001.

## Llofnod Cytundeb:

| Heddlu Dyfed Powys | |
|---|---|
| Enw | CLAIRE PARMENTER. |
| Swydd | DEPUTY CHIEF CONSTABLE |
| Dyddiad | 4. 9. 19. |
| Llofnod | |
| Tystiwyd gan | NICOLA SQUIRES |
| Llofnod | |

| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | |
|---|---|
| Enw | NICK BENNETT |
| Swydd | OMBWDSMON |
| Dyddiad | 4.9.19 |
| Llofnod | |
| Tystiwyd gan | CHRIS VINESTOCK |
| Llofnod | |